OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 1357

# Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2007

## RHAN 1

CYFFREDINOL

**Datganiad o ddiben**

**3.**—(1) Mewn perthynas â'r gwasanaeth mabwysiadu, rhaid i bob awdurdod lleol lunio datganiad ysgrifenedig (y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "y datganiad o ddiben") a rhaid i'r datganiad fod yn ddatganiad o'r materion a restrir yn Atodlen 1.

(2) Rhaid i'r awdurdod roi copi o'r datganiad o ddiben i'r Cynulliad Cenedlaethol a, phan wneir cais am gopi, rhaid iddo sicrhau bod copi ohono ar gael i'w archwilio gan—

(a) plant a all gael eu mabwysiadu, eu rhieni a'u gwarcheidwaid;

(b) personau sy'n dymuno mabwysiadu plentyn;

(c) personau a fabwysiadwyd, eu rhieni, eu rhieni naturiol a'u cyn-warcheidwaid;

(ch) personau sy'n gwneud cais am asesiad o'u hanghenion er mwyn i wasanaethau cymorth mabwysiadu gael eu darparu ar eu cyfer gan yr awdurdod;

(d) pob person sy'n gweithio at ddibenion y gwasanaeth mabwysiadu.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i'r awdurdod sicrhau bod y modd y cynhelir ei wasanaeth mabwysiadu bob amser yn unol â'i ddatganiad o ddiben.

(4) Nid oes dim ym mharagraff (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod fynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth arall yn y Rheoliadau hyn neu i beidio â chydymffurfio â hi neu'n ei awdurdodi i wneud hynny.